Sam Aldridge
Adéọlá Dewis
Sean Edwards
Heledd C Evans
Athena Jones
Tamara Krikorian
Jon Pountney +
J.Brookes
Jeffrey Steele +
Katrina Blannin
Wendy Short

# REBUILD^the^ POETS

Mae g39 yn falch iawn o ail-ddangos gwaith gan Sam Aldridge, Adéọlá Dewis, Sean Edwards, Heledd C Evans, Athena Jones, Tamara Krikorian, Jon Pountney + J. Brookes, Jeffrey Steele + Katrina Blannin, Wendy Short mewn arddangosfa a rhaglen o weithgareddau, ail-berfformiadau, ail-gyflwyniadau ac atgynhyrchiadau o waith artistiaid sy'n rhychwantu sawl cenhedlaeth.=

Arddangosfa a rhaglen o weithgareddau, ail-berfformiadau, ail-gyflwyniadau a chopďau o weithiau artistiaid fydd yn rhychwantu sawl cenhedlaeth. Mae enw'r sioe yn dwyn ysbrydoliaeth o arwydd a ymddangosodd ar ffens wedi i dafarn leol, The Poets Corner, a safai ger Shelley Walk a Shakespeare Street, gael ei ddymchwel yn 2016 er mwyn gwneud lle ar gyfer ailddatblygiad.

Dros y ddegawd ddiwethaf mae g39 wedi bod yn pwyso a mesur y rhagdybiaethau sydd ynghlwm â'r ffyrdd yr ydym yn meddwl am




g | 39 Stryd Rhydychen,
CAERDYDD CF24 3DT

+44 (0) 29 2047 3633
www.g39.org
post@g39.org
@g39cardiff

Rebuild the Poets
Lansiad: 03/10/25, 6yp
Ar Agor: 04/10/25 - 13/12/25
Merch - Sad, 11yb - 5yp

---

Graddiodd Sam Aldridge g. Yeoville (1986-2016) o Gaerdydd yn 2008. Roedd ei waith cerfluniol yn defnyddio technegau adeiladu lo-fi i ddynwared gwrthrychau bob dydd. Arddangosodd Sam ei waith yn g39 yn ogystal ag yn Halle 14 yn Leipzig. Roedd yn rhan o'r grŵp BRG (British Racing Green).

Artist ac ymchwilydd o Trinidad yw Adéọlá Dewis (1977-) sydd wedi byw yng Nghymru ers 2003. Gyda diddordeb mewn perfformio diwylliannau cynhenid a gwerinol, mae ei gwaith yn archwilio mynegiadau o hunaniaeth a pherthyn mewn alltudiaeth. Mae gwaith Adéọlá yng nghasgliad y llywodraeth, a hi fu'n cyflwyno'r rhaglen deledu Vanishing Wales yn ddiweddar.

Mae Sean Edwards (1980-) yn byw a gweithio yng Nghaerdydd ac yn 2019 fe oedd cynrychiolydd Cymru ym 58fed Biennale Fenis. Roedd yn flaenllaw wrth roi ffurf ar raglen ddatblygu artistiaid g39 ar ôl graddio, a bellach mae'n gweithio fel Cyfarwyddwr Rhaglen Celf Gain a Ffotograffiaeth Ysgol Gelf a



ddatblygiad a llwyddiant. Mae *Rebuild the Poets* yn ystyried mai peth sgwiglog yw ‘cynnydd’, yn hytrach na llinell syth rhwng y gorffennol a’r presennol. Sgwigl na ellir ei ragweld; un sy’n cysylltu ar sawl pwynt gwahanol.

Ers hynny, rydym wedi dysgu mai placard gan y bardd a’r ymgyrchydd J. Brookes oedd *Rebuild the Poets*, a gafodd ei ailgreu a’i ailosod bob tro roedd contractwyr yn ei waredu, dacw wrthsafiad cynnil. Diolch i’r ffotograffydd a’r artist Jon Pountney am gael defnyddio ei ffotograff o’r arwydd yn ei le. Mae’r darn hwnnw o dir, fel sawl man arall ar hyd Heol y Plwca, yn cael ei ailddatblygu ar hyn o bryd.

Gan gofnodi adeiladau pwysig sy’n diflannu ac atgofion o fagwraeth yng Nghaerdydd, mae paentiad Athena Jones, *City Road at Night*, yn dangos adeilad wedi’i glustnodi ar gyfer dymchweliad. Wedi ei adnewyddu sawl tro, mae’r façade cromennog wedi bod yn ali fowlio, bar, neuadd bingo - ond yn wreiddiol yn 1912 fe agorodd fel y *Gaiety Electric Theatre* gydag organ bib a luniwyd yn arbennig ar gyfer y safle er mwyn cyfeilio ffilmiau mud.

Yn ystod Gwanwyn 2023 roedd y cyfansoddwr a’r artist Heledd C Evans yn rhan o broject gyda Tŷ Cerdd a Theatr SOAR ym Merthyr Tydfil i greu gwaith newydd ar gyfer organ fecanyddol adnewyddedig y theatr. Fel rhan o’r arddangosfa, bydd recordiad o Huw Morgan yn chwarae’r cyfansoddiad yn llenwi gofod yr oriel bob awr.

Rydym hefyd yn dychwelyd gwaith yn ôl i’r gofod cyhoeddus fel rhan o’r arddangosfa. Cafodd cerflun Sean Edwards, *Photocopied Staedtler Noris HB Pencil*, ei greu pan raddiodd o Gaerdydd yn

Dylunio Caerdydd.

Artist a cherddor sy’n byw yng Nghaerdydd yw Heledd C Evans. Mae’n gweithio gyda sŵn mewn gosodiadau safle-benodol a sŵn-dirweddau amlhaenog. Mae wedi cynhyrchu rhaglenni ar gyfer radio, wedi gweithio fel Cynhyrchydd Ymgysylltu gydag Artes Mundi, ac yn ddiweddar roedd hi’n un o gymrodorion Cymru Fenis 10.

Ganed Athena Jones yng Nghaerdydd (1973-) ac astudiodd yn Nottingham a Chaerdydd gan weithio’n bennaf gyda darlunio a phaentio. Yn ddiweddar bu’n rhan o wobr paentio BEEP, arddangosodd yn Juxtaposed yng Nghastell Cyfarthfa ac roedd hi’n rhan o’r Sioe Ddarlunio yn Oriel Bridewell Lerpwl.

Tamara Krikorian (1944-2009) oedd un o’r menywod cyntaf yn y DU i greu celfyddyd fideo. Roedd hi’n gyfrifol am drefnu cynadleddau, fforymau celf ac ysgrifennodd destunau allweddol ar luniau sy’n symud. Cydsefydlodd London Video Artists a hi drefnodd sioe gelf fideo cyntaf Yr Alban yn y Third Eye, Glasgow ym 1976. O’r 1980au ymlaen bu Tamara yn pledio achos gwaith artistiaid o Gymru fel cyfarwyddwr Cywaith Cymru.

Ffotograffydd ac artist yw Jon Pountney g. Sir Warwig (1978-) sy’n byw yn Nhrefforest. Atgofion, hiraeth, hanes cymdeithasol a chymuned sy’n ysbrydoli ei waith, ac mae’n defnyddio ffilm a ffotograffiaeth ddigidol yn bennaf. Mae’n angerddol dros weithio gyda chymunedau a phobl, er mwyn dod a straeon yn fyw a’u rhannu gyda’r byd.

2003 - mae proses lafurus o sandio a llungopďo copi union o bensil yn disodli'r gwreiddiol a ddisbyddwyd. Mae Adéọlá Dewis yn adfer darnau o'i harddangosfa a pherfformiad cyntaf yng Nghymru *Out of the Frame* yn g39 yn 2005. Ac rydym yn ail-ddangos *Patsy* gan Wendy Short, ffilm am amser, marwoldeb a newidiadau o genhedlaeth i genhedlaeth, a luniwyd ar gyfer rhaglen UNITe Jerwood g39 yn 2021, ond na welodd olau dydd oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo.

Rydym hefyd yn ailddangos gwaith Tamara Krikorian, oedd yn ffigwr adnabyddus ledled Cymru yn ei gwaith fel cyfarwyddwr Cywaith Cymru. Rhan o'i llyfrgell hi ffurfiodd sylfeini ein llyfrgell ni yn g39. Yn *Rebuild the Poets* rydym yn dangos peth o'i gwaith symudlun o ddiwedd y 1970au, a luniwyd i darfu ar lif darlledu'r teledu.

Mae'r arddangosfa'n cynnwys print sgrîn sidan gwreiddiol o fwrdd poster, *DOMENICO* gan Jeffrey Steele, a welwyd ddiwethaf yn 1967 wedi'i bastio mewn safleoedd ar hyd a lled Cymru, yn dilyn



comisiwn gan Gyngor Celfyddydau Cymru o dan arweinyddiaeth Peter Jones. Roedd Jones yn gyfrifol am sawl project cyffelyb, gan gymysgu diwylliant aruchel ac isel i adlewyrchu traddodiadau democrataidd Cymru. Roedd ei ddull o gomisiynu hefyd yn wrthbwynt i olygon cul Cyngor Celfyddydau Prydain, fel yr enwyd ar y pryd. Rydym yn cyflwyno'r argraffiad gyda chymorth Katrina Blannin, cydweithiwr a ffrind Jeffrey Steele, sydd hithau'n arddangos cyfres o argraffiadau, *DOMENICA*, sy'n ymateb i'r gwreiddiol.

Wrth galon yr arddangosfa mae archif Sam Aldridge, gan gynnwys ei broject *Modernist Movement*. Mae'r sioe yn cynnwys ein hatgynhyrchiad o'i atgynhyrchiad yntau mewn maint llai o gerflun

Bardd sy'n byw yng Nghaerdydd yw J. Brookes g.Llundain (1951-). Graddiodd o Brifysgol Ulster ym 1981. Roedd yn olygydd ar gylchgrawn barddoniaeth The Yellow Crane rhwng 1995-2005. Cafodd ei gasgliad Hymns Ancient & Modern ei gyhoeddi gan Parthian yn 2019.

Ganed Jeffrey Steele (1931-2021) yng Nghaerdydd i deulu dosbarth gweithiol yn ardal Y Sblot. Ym 1948 aeth i Goleg Celf Caerdydd ond gadawodd ym 1950 wedi anghydfod, a seiclodd i goleg Casnewydd yn lle. Wedi iddo dreulio amser yn Llundain a Pharis, dychwelodd i Gymru ym 1960. Roedd yn aelod amlwg o Ysgol Haf Y Barri a threfnodd arddangosfa grŵp Systeemi yn Helsinki. Yn farcsydd, cyflwynodd ddarlithoedd ar agweddau theoretig a gwleidyddol celf, yn ei waith fel pennaeth celf gain Coleg Celf Portsmouth tan 1988.

Graddiodd Katrina Blannin g.Llundain (1963-) o'r Coleg Celf Brenhinol ym 1997. Mae wedi arddangos ei gwaith yn helaeth ar draws y DU a thramor, mae wedi cyd-gyfarwyddo gofodau wedi'u rhedeg gan artistiaid, mae wedi curadu arddangosfeydd ac wedi ysgrifennu am baentio cyfoes. Yn 2021 cwblhaodd PhD Paentio drwy Ymarfer ym Mhrifysgol Caerwrangon. Mae'n dysgu yn UAL Camberwell; UCA Caergaint ac yn gweithio ar fwrdd golygu a rhaglen fentora Turps Banana. Mae'n cael ei chynrychioli gan Laurent Delaye.



*Three Obliques (Walk in)* Barbara Hepworth, sef ei cherflun parhaol tu allan i Brifysgol Caerdydd. Yn 2012, mewn partneriaeth â phrojectau EMP fel rhan o Cardiff Contemporary, symudodd Sam ei fersiwn ysgafn ar draws y ddinas, gan wneud a dad-wneud y strwythur mewn safleoedd gwahanol, gan gynnwys g39. Roedd Sam yn artist rhyfeddol, oedd yn fywiog a chyson chwareus, ac roeddem yn lwcus i weithio gyda fe dros nifer o flynyddoedd. Rydym yn falch o gynrychioli'r gwaith hwn ar y cyd â modelau a chynlluniau a darluniau, ynghyd â'i waith gyda chasgleb y BRG sy'n cael ei dangos gyda'i gilydd am y tro cyntaf.

Nid yw Rebuild the Poets yn rhychwantu popeth, mae sawl peth arall y gellir rhoi sylw iddynt, ond dyma ddetholiad penodol o waith o'r degawdau diwethaf wedi eu casglu ynghyd yn g39. Ceir yma eiliadau o arwyddocâd ac eiliadau o drawsnewidiad. Y weithred o sylwi ar y rhain sy'n ein helpu i ddeall ein rhan yn yr hanes.

# REBUILD the POETS

Mae Wendy Short g. Ayrshire (1979-) yn gweithio i ddeall sut yr ydym yn gwneud synnwyr o'r gorffennol, y presennol a'n cysylltiadau gyda'n gilydd. Drwy recordiadau maes a lluniau sy'n symud, mae Wendy'n archwilio treigl amser, defnydd hanesyddol gwahanol safleoedd a'r ystyr sy'n perthyn i le. Gydag MA mewn Gwneuthuro Ffilmiau Arbrofol ynghyd â gradd mewn Paentio a Hanes Celf mae hi wedi gwneud ffilmiau am Archif Jocelyn Herbert a'r lleisydd Ingrid Plum. Mae wedi dangos ei ffilmiau yn y DU a Berlin.

---

Mae g39 yn gartref i oriel a redir gan artistiaid yn ogystal a chymuned greadigol ar gyfer y celfyddydau gweledol – y mwyaf o`i fath yng Nghymru. Sefydlwyd g39 yng Nghaerdydd, a daeth elusen yn 2019 sydd yn gweithio fel pont rhwng cymunedau, y cyhoedd ac artistiaid. Artistiaid sydd wrth wraidd gweithgareddau g39. O breswyliadau i hyfforddiant a mentora, cynulliadau anffurfiol, neu wireddu`r arddangosfeydd mwyaf uchelgeisiol – ein nod yw annog a galluogi pawb sydd yn awyddus i ddilyn ymarfer celf weledol.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government